Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

9 Rhagfyr 2019

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 7 Hydref yn amgáu eich papur trafod ar y modd y mae'r Cynulliad yn dymuno craffu ar gytundebau rhyngwladol. Mae'n ddrwg gen i am yr oedi wrth ymateb, fodd bynnag roeddwn i'n meddwl ei bod hi'n bwysig rhoi ystyriaeth ddigonol i'ch papur yng ngoleuni ein gwaith ar Fil y Cytundeb Ymadael a materion cysylltiedig.

Darllenais y papur gyda diddordeb, ac rwy'n ddiolchgar am yr ystyriaeth yr ydych wedi bod yn ei rhoi i'r mater hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cynigion manwl ar gyfer defnyddio dull gweithredu trylwyr i graffu ar negodiadau'r DU-UE, gan gynnwys rôl gref i'r Cynulliad, yng nghymalau drafft Bil y Cytundeb Ymadael a gafodd eu cyhoeddi ar 11 Mawrth. Mae'r cymalau i'w gweld yn: https://gov.wales/sites/default/files/inline-documents/2019-03/draft-clauses.pdf. Mae'r cymalau hyn yn berthnasol yn ehangach nag o fewn cyd-destun penodol y negodiadau gyda'r UE yn unig.

Rwy'n falch bod y cynigion a nodir yn eich papur trafod yn gydnaws â'n safbwynt ni. Fel yr ydych yn ei nodi, bydd eich dull gweithredu yn dibynnu ar y ffaith bod Llywodraeth y DU yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael rôl ystyrlon yn y broses. Mae'r mater hwn yn dal i fod yn destun trafod rhynglywodraethol. Bydd yn rhaid inni edrych eto ar fanylion eich cynigion unwaith y daw'r sefyllfa'n gliriach, er mwyn sicrhau bod unrhyw drefniadau craffu sydd ar waith yn adlewyrchu sut y bydd y broses negodi yn gweithio'n ymarferol. Er enghraifft, nid yw'r "deviation from the mandate that might emerge during negotiations" yr ydych yn cyfeirio ato yn ymarferol bosibl – er mwyn newid y mandad, mae angen cytundeb gan Weinidogion ac fel arfer bydd hynny'n cael ei wneud rhwng cylchoedd negodi.

Rwy'n nodi eich bod yn cynnig y dylai cydsyniad y Cynulliad fod yn ofynnol mewn dau gyfnod yn y broses; cytuno ar fandad negodi a'i gadarnhau. Er ein bod yn awyddus i hwyluso gwaith craffu'r Cynulliad drwy gydol y broses, rydym yn pryderu y byddai gwneud cydsyniad y Cynulliad yn ofynnol yn achosi amwysedd rhwng rolau'r deddfwrfeydd a'r gweithredwyr perthnasol, ac ni fyddai'n adlewyrchu'r setliad cyfansoddiadol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyfrifoldeb cangen weithredol y llywodraeth, yng ngoleuni barn y ddeddfwriaeth berthnasol, yw cytuno ar fandadau negodi, a bod yn atebol amdanynt. At hynny, nid yw hyd yn oed cyfansoddiadau cwbl ffederal yn rhoi feto ar gytundebau masnach i lywodraethau dan lefel ffederal. Byddai gwneud hyn, wrth gwrs, yn gwneud rôl y llywodraeth ffederal o ran cynnal negodiadau rhyngwladol yn gwbl anymarferol.

Ond serch hynny, rwyf o'r farn y dylid ystyried sylwadau'r Cynulliad cyn cytuno ar gytuniad sy'n effeithio ar Gymru, yn enwedig pan fo hyn yn cynnwys meysydd polisi o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae felly yn hanfodol y dylai'r Cynulliad gael gwybodaeth yn ymwneud â chytundebau rhyngwladol sy'n cynnwys meysydd polisi o fewn cymhwysedd datganoledig, a/neu sy'n effeithio ar Gymru, ar yr un pryd â Senedd y DU.

Ond nid wyf yn credu y byddai cytuno i gytundebau rhyngwladol yn addasu cymhwysedd datganoledig y Cynulliad. Felly ni fyddai cymhwyso confensiwn cydsynio, fel Confensiwn Sewel y mae'r papur yn ei ragweld dan opsiwn 1, o reidrwydd yn cyd-fynd â'r sefyllfa gyfansoddiadol o ran cytundebau rhyngwladol. Mae confensiwn Sewel yn berthnasol pan fo Senedd y DU yn cyflawni swyddogaeth y gallai'r Cynulliad hefyd ei chyflawni, neu pan fo Senedd y DU yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Nid yw cadarnhau cytundebau rhyngwladol yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau hynny.

Dan y trefniadau cyfansoddiadol cyfredol, mae cysylltiadau rhyngwladol yn fater i'r weithrediaeth. Mae hyn yn wir yn y DU ac yng Nghymru. Felly, nid yw Confensiwn Sewel, sy'n gonfensiwn rhwng deddfwrfeydd, yn uniongyrchol berthnasol i gysylltiadau o'r fath. Os oes angen deddfwriaeth weithredu ddomestig cyn cadarnhau cytundebau, bydd y Cynulliad yn chwarae rhan allweddol, naill ai drwy graffu a phasio deddfwriaeth i weithredu unrhyw rwymedigaethau sy'n ymwneud â Chymru, neu roi cydsyniad i Fil y DU sy'n gweithredu'r cytundeb rhyngwladol ar gyfer y DU cyfan, lle bydd y Bil yn cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Rwy'n gobeithio bod y sylwadau hyn yn ddefnyddiol, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i ymgysylltu â chi ar y mater hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, ac i Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language